

Y llythyr newyddion ar gyfer pobl sy'n ymwneud â dehongli yng Nghymru

Dehongli Cymru

Interpret Wales

Gwanwyn Spring
2005 rhifyn issue

The newsletter for people working in interpretation in Wales

3



Yn y rhifyn hwn In this issue

Ffilmio ymarferol
Hands-on filming

Creu cynulleidfa newydd
Creating a new audience

Myfyrdodau ar weithdy Sam Ham
Sam Ham workshop thoughts

DEHONGLI CYMRU/INTERPRET WALES Rhifyn 3 Gwanwyn 2005

Cyhoeddwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru
ar ran Grŵp Llywio Dehongli Cymru

Golygydd: Margi Bryant

Dylunio: Olwen Fowler

Argraffwyd gan: CIT Creative Print

Mae Dehongli Cymru/Interpret Wales yn anelu at ennyn diddordeb y cyhoedd yn ein treftadaeth naturiol a diwylliannol drwy waith dehongli o'r radd flaenaf, a rhoi cymorth i ddehonglwr drwy gynnig cyfleoedd i rwydweithio, cael hyfforddiant a rhannu arfer da. Mae'r prosiect yn cael ei redeg gan Grŵp Llywio sy'n cynrychioli'r asiantaethau canlynol:

Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru

Asiantaeth yr Amgylchedd (Cymru)

Bwrdd Croeso Cymru

Cadw – Henebion Hanesyddol Cymru

Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Cyngor Sir Ddinbych

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

(a gynrychiolwyd gan Gyngor Bwrdeistref
Sirol Caerffili)

Parciau Cenedlaethol Cymru

Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru

Cynnwys

Y Blaned Las ym mhwl yr ysgol	4
Cymeriadau lliwgar yn y Coliseum	8
Myfyrdodau thematig o Gaerdydd	10
Cynllunio breuddwyd yn Nant yr Arian	14
Ymgynghorwyr – canllaw i ddefnyddwyr	18

Angen cysylltu â ni?

Hyd nes y bydd gennym Ysgrifennydd newydd, anfonwch eich ymholiadau, os gwelwch yn dda at:

Carl Atkinson, Cadeirydd,
Dehongli Cymru/Interpret Wales
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
c.atkinson@ccw.gov.uk
01248-385484

Clawr: Mae gwneud ffilm yn weithgaredd dehongli ymarferol yn achos disgyblion Ysgol Tafarnspite yn Sir Benfro
Ffotograff: Dave Welton Stori: tud 4

Cyrraedd a ffarwelio

Wrth edrych o gwmpas Ystafell Wyr Icons yn yr Amgueddfa Genedlaethol ym mis Ionawr, pan ddaeth 50 o gynrychiolwyr ynghyd ar gyfer ein gweithdy hyfforddi cyntaf erioed, roeddwn i'n teimlo'n wir fod Dehongli Cymru bellach wedi cyrraedd. Roedd y gweithdy, dan arweiniad un o sêr rhyngwladol y byd dehongli yn garreg filltir o ddigwyddiad a daeth pobl o bob cwr o'r DU i'r achlysur.

Roedd nifer o brif asiantaethau treftadaeth ac amgylchedd Cymru yn bresennol – er yn anffodus, nid pob un – ochr yn ochr ag awdurdodau lleol, prifysgolion a busnesau bach. Yno hefyd roedd rhai enwau blaenllaw o'r tu draw i'r ffin, ac yn eu plith English Heritage, PLB Consulting, Haley Sharpe Design. Yn ychwanegol at hyn, anfonodd nifer o asiantaethau, sydd â'u cylch gorchwyl yn cynnwys y DU gyfan, e.e. British Waterways a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, eu prif swyddogion dehongli i'r digwyddiad. (Gallwch ddarllen mwy am y gweithdy ar dudalen 10).

Braf yw adrodd i nifer mor fawr fynychu'r digwyddiad, er i hyn olygu bod rhaid siomi eraill. Llanwyd y lleoedd oedd ar gael ar gyfer y gweithdy mewn byr o dro a bu'n rhaid i ni wrthod o leiaf 20 arall o ddarpar gyfranogwyr. Rydym eisoes wedi cychwyn ar y gwaith o drefnu'r gweithdy nesaf fydd yn canolbwyntio ar ddehongli byw. Clustnodwyd Hydref 2005 fel amserlen dros dro. Cadwch eich llygaid ar agor yn rhifyn yr Hydref – a chofiwch archebu lle yn gynnar!

Rydym wedi cyflawni cryn dipyn mewn amser byr, ond mae yna sawl her yn ein haros eto. Ym marn Phil Jayne, cynrychiolydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

ar y Pwyllgor Llywio, y sialens fwyaf yw statws dehongli ei hun. Mae'n gweld tebygrwydd rhwng dehongli a chadwraeth byd natur. Dechreuodd y ddau fel mudiadau lleiafrifol, ond yn yr 20 mlynedd a aeth heibio, ymunodd cadwraeth byd natur â'r brif ffrwd ac erbyn hyn mae'n cael ei chynnal gan beth wmbreth o gyllid a deddfwriaeth.

Gwelwyd twf mewn dehongli hefyd, ond a yw wedi dod i oed yn yr un modd? "Ble mae'r nawdd gan y Llywodraeth?" yw cwestiwn Phill. "Ble mae'r Strategaeth Ddehongli ar gyfer Cymru? Ble mae'r cymwysterau sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol?" Mae'n amlwg fod gan Dehongli Cymru rôl hanfodol bwysig i'w chwarae yn y dasg o godi proffil dehongli gan ei gwneud yn rhan gynhenid o'r ffordd y mae diwylliant a threftadaeth amgylcheddol Cymru yn cael eu rheoli a'u hyrwyddo.

Gyda'r her gyffrous hon o'n blaenau, mae'n chwith gennyf orfod rhoi'r gorau fel Golygydd y cylchgrawn hwn a chydlynnydd Ysgrifenyddiaeth Dehongli Cymru. Ymunais ag ymgynghoriaeth ddehongli yn Lloegr yn ddiweddar ac felly nid oes modd i fi fod "yn y fan a'r lle" i gynnal a chadw'r ffocws Cymreig sydd ei angen ar Dehongli Cymru. Ond byddaf yn gwylio gyda chrym ddiddordeb o'r tu draw i Glawdd Offa ac rwy'n ffyddiog y caf weld y rhwydwaith yn mynd o nerth i nerth!

Margi Bryant

Golygydd,
cylchgrawn
Dehongli Cymru /
Interpret Wales



Arrivals and departures

Looking round the National Museum's Icon Suite in January, when 50 delegates gathered for our first-ever training workshop, I felt that Dehongli Cymru had really arrived. The workshop was a milestone event, led by one of interpretation's international stars and attended by people from all over the UK.

Many – though sadly not all – of Wales' key heritage and environment agencies were represented, alongside local authorities, universities and small businesses. So too were some big names from across the border, including English Heritage, PLB Consulting, Haley Sharpe Design. And several agencies with a UK-wide remit, such as British Waterways and the National Trust, sent their top interpretation staff. (You can read more about the workshop on page 12.)

It's gratifying that the event had such wide takeup, even though this meant disappointment for some. The workshop booked up quickly and we had to turn away at least another 20 would-be participants. We are already planning the next workshop, which will focus on live interpretation. This is provisionally scheduled for Autumn 2005. Look out for details in our autumn issue – and remember to book early!

We've achieved a lot in a short time, but there are still many challenges ahead. Phil Jayne, who represents the Welsh Local

Government Association on our Steering Group, believes the biggest challenge is the status of interpretation itself. He draws a parallel between interpretation and nature conservation. Both started as minority movements, but in the last 20 years nature conservation has become mainstream and is supported by huge rafts of funding and legislation.

Interpretation too has grown, but has it come of age in the same way? "Where is the government support?" Phil asks. "Where is the Interpretation Strategy for Wales? Where are the nationally recognised qualifications?" It's clear that Dehongli Cymru has a vitally important role to play in raising the profile of interpretation and making it an intrinsic part of how Wales' cultural and environmental heritage are managed and promoted.

With this exciting challenge ahead, I'm sorry to be signing off as Editor of this magazine and co-ordinator of the Dehongli Cymru Secretariat. I recently joined an interpretation consultancy based in England and can't therefore maintain the "on the spot" Welsh focus that Dehongli Cymru needs. But I'll be watching with interest from across the border and I'm sure I'll see the network go from strength to strength!

Margi Bryant

*Editor,
Interpret Wales/
Dehongli Cymru magazine*

INTERPRET WALES/DEHONGLI CYMRU Issue 3 Spring 2005

Published by the Countryside Council for Wales on behalf of the Interpret Wales Steering Group

Editor: Margi Bryant

Design: Olwen Fowler

Printed by: CIT Creative Print

Interpret Wales/Dehongli Cymru aims to enthuse the public about our natural and cultural heritage through interpretation of the highest quality, and to support interpreters by networking, training and sharing good practice.

The project is run by a Steering Group representing the following agencies:
Cadw - Welsh Historic Monuments
Countryside Council for Wales
Denbighshire County Council
Environment Agency Wales
Forestry Commission Wales
National Museums & Galleries of Wales
National Parks in Wales
National Trust Wales
Wales Tourist Board
Welsh Local Government Association
(represented by Caerphilly County Borough Council)

Contents

Blue Planet in the school pond	6
Colourful characters at the Coliseum	9
Thematic thoughts from Cardiff	12
Planning a dream at Nant yr Arian	16
Consultants – a user's guide	19

Need to contact us?

Until we have a new Secretariat, please direct enquiries to:
Carl Atkinson, Chair
Interpret Wales/Dehongli Cymru
Countryside Council for Wales
c.atkinson@ccw.gov.uk
01248-385484

Cover: Film-making is a hands-on interpretive activity for pupils at Tavernspite School in Pembrokeshire
Photo: Dave Welton Story: page 6



Y Blaned Las ym mhwll yr ysgol

Byddai'r mwyafrif ohonom yn cytuno fod ffilm yn ffordd rymus o gyfathrebu. Ond fel cyfrwng deongliadol mae'n tueddu gosod cynulleidfaoedd mewn rôl braidd yn oddefgar – os na fyddan nhw'n cymryd rhan yn y gwaith o greu'r ffilm. **Dave Welton** sy'n disgrifio sut y gall ffilm fod yn weithgaredd deongliadol ymarferol.

Rydym yn byw mewn oes lle mae'r Rddelwedd symudol yn ddull pwysig o gyfathrebu. Swm a sylwedd dehongli yw esbonio'r byd o'n cwmpas – y gorffennol, y presennol a'r dyfodol – ac mae'r ffilm yn cynnig cyfrwng grymus a hygyrch er mwyn cyflawni hynny.

Yn fy nyddiau cynnar fel Ceidwad Parc Gwledig, roeddwn yn ymwybodol o'r effaith a gâi'r fideo hwnnw – y cyflwyniad byr, pum munud o hyd, i'r parc – oedd i'w weld yn y ganolfan ymwelwyr. Dim ond gwasgu botwm oedd yn sownd wrth recordydd fideo ar ddolen oedd ei angen i gychwyn y rhaglen ac roedd y lluniau a'r sylwebaeth yn ddigon hawdd i oedolion a phlant fel ei

gilydd eu deall. Er bod y ffilm honno bron â gyrru'r swyddog yn y dderbynfa gerllaw yn gwbl wallgof dros y blynyddoedd, roedd bob amser yn denu'r tyrfaoedd, a rhaid ei bod, yn wahanol i'r dewis arall, sef llawlyfr, wedi arbed llw o fforestydd glaw rhag cael eu cludo i'r melinau papur!

Heddiw, rwy'n dal i gynhyrchu ffilmau tebyg, o safon uchel, ac rwy'n ymfalchio yn y gwaith hynny. Eto i gyd, mae hyn yn tueddu osgoi'r broses lle bydd trigolion lleol yn cael cefnogaeth i ddatblygu dull partneriaethol o fynd i'r afael â dehongli (dull a ddisgrifiwyd yn erthygl Shelagh Hourahane "Lle pwy, dehongliad pwy?" yn *Dehongli Cymru* Rhifyn 1). O ganlyniad, penderfynais

fynd â'r gwaith o gynhyrchu ffilmau gam ymhellach, ac erbyn hyn rwy'n gweithio gyda grwpiau o bobl ac yn

Mae prosiect Ysgol Tafarnspite yn dangos sut y gall ffilmio ymarferol sianelu brwdfrydedd yr ifanc **The Tavernspite project shows how hands-on filming can channel young people's enthusiasm**

eu cynorthwyo i gynhyrchu ffilmau byrion eu hunain sy'n sôn am eu hamgylchfyd lleol.

Mae'r dull hwn yn ysgogi pobl i gydnabod pwysigrwydd eu hamgylchedd neu eu treftadaeth ac mae'n gymorth i feithrin ymdeimlad o berchen a balchder, ac yn eu symbylu i gywain gwybodaeth. Gellir troi'r dasg o wneud ffilm gyda phobl leol yn gyfrwng creadigol er mwyn adrodd straeon, addysgu a chyfleu negeseuon.

Gwneud gwaith ar ddehongli'r amgylchedd gyda phobl ifanc y bydda' i fwyaf, ond gall y dull hwn o weithredu weithio'n dda gydag ystod o oeddrannau, gallu a meysydd pwnc. Os ydych chi'n ystyried defnyddio fideo digidol gyda chriw o bobl er mwyn cynhyrchu ffilm fer, yna darllenwch y canlynol ...

Cyn i chi ruthro allan a saethu ffilm simsan 30 munud o hyd sy'n darlunio alarch pellennig ar ganol rhyw lyn neu'i gilydd, rhaid i chi dreulio amser yn cynllunio'r ffilm. Mae'n bosibl nad eich nod yw ceisio herio cyfres arobryn y BBC, "The Blue Planet", ond mae rhaglenni dogfen ar y teledu yn fan cychwyn da. Dylai eich grŵp edrych yn feimiadol ar enghreifftiau a mynd ati i geisio adnabod nodweddion a swyddogaethau pwysig. Gwylwch adrannau byrion o amrywiaeth o ffilmau ac astudiwch y gwahanol arddulliau, rhediad stori, dilyniannau agor a chau, y defnydd o sain ac adroddiad ac ati.

Cyfarwyddyd cam-wrth-gam

Os ewch ati i ddilyn y drefn hon gyda'ch grŵp, bydd cynhyrchu'r ffilm yn dasg llawer haws a bydd y cyfanwaith gorffenedig yn edrych gymaint yn fwy proffesiynol.

- **Datblygu syniad** Gweithiwch gyda'r grŵp, gan adael iddyn nhw ddefnyddio eu syniadau creadigol hwy eu hunain yn hytrach na gwthio'ch syniadau chi. Wedyn bydd ganddyn nhw ymdeimlad o berchenogaeth. Trafodwch pam rydych chi'n gwneud y ffilm, arddull y ffilm, ei hyd, ac yn olaf, rediad y stori.
- **Ymchwil** Gwnewch yn siŵr o'ch ffeithiau drwy ddefnyddio llyfrau, y we, cylchgronau



Fotograffau gan Dave Welton

Newsround Ysgol Tafarnspite

Mae Ysgol Gynradd Tafarnspite yn Sir Benfro yn rhoi pwyslais mawr ar addysg amgylcheddol. Yn ddiweddar, bûm yn gweithio ar y cyd gyda Blwyddyn 6 ac yn gwneud ffilm fer sy'n dangos sut maen nhw'n defnyddio tir yr ysgol i helpu'r amgylchedd. Penderfynodd y plant ar raglen ar lun "Newsround" gan fynd ati i archwilio gwahanol ardaloedd o gwmpas yr ysgol.

Fel man cychwyn, bu'r plant yn gwyllo detholiadau o ffilmiau bywyd gwyllt er mwyn eu helpu i ddeall y broses o greu ffilm o'r fath. Wedyn, aeth grwpiau o'r dosbarth ymlaen â'r gwaith o gynhyrchu byrddau stori ar gyfer dilyniannau byr a luniwyd ganddynt eu hunain, gyda phob un o'r rhain yn edrych ar wahanol ran o'r ysgol. Dewiswyd gwirfoddolwyr yn

ddarllenwyr newyddion ac yn ohebwy.

Cymerodd pob un o'r 30 plentyn ran yn y ffilmio, naill ai drwy neu o flaen y lens. Bûm innau'n gweithio ar y ffilm, yn ei golygu a'i throsglwyddo i DVD. Roedd y ffilm orffenedig yn para am 6 munud 30 eiliad.

Pedwar diwrnod oedd hyd y broses gyfan, o'r cynllunio i'r sgrinio. Gan mai prosiect ysgol oedd hwn, euthum ati i baratoi cynllun gwaith er mwyn dangos sut y byddai'r ffilm yn cyddaro â chwricwlwm Blwyddyn Chwech.

Mae'r ysgol yn ystyried y ffilm yn adnodd pwysig i'w rannu gyda rhieni, y llywodraethwyr a'r gymuned, er mwyn dangos faint mae'r ysgol yn ei wneud i helpu'r amgylchedd ac i hybu gwerthoedd a chredoau sy'n ecologyllgar.

ddefnyddiol er mwyn cadw gweddill y grŵp yn dawel tra bod y lleill yn ffilmio.

- **Treipod** Bydd treipod arferol, o safon dda, ar gyfer camera llonydd yn gwneud y tro.
- **Clustffonau** Bydd angen y rhain arnoch i fonitro'r sain pan fyddwch yn ffilmio.
- **Cuddfan Adar** Gall hwn fod yn ddefnyddiol er mwyn ffilmio agosloniau o adar ac anifeiliaid.
- **Cyfrifiadur** Bydd angen Cyfrifiadur PC neu Mac arnoch gyda meddalwedd sylfaenol sy'n golygu ffilmiau.

ac ati. Gall fod yn ddefnyddiol bryd hyn i rannu'r criw yn grwpiau llai er mwyn iddyn nhw fedru canolbwyntio ar wahanol gydrannau neu ddilyniannau'r ffilm.

- **Bwrdd Stori a sgrïpt** Dylid tynnu llun pob saethiad yn y ffilm gyfan ar ffurf dilyniant o flychau, tebyg i sribed cartŵn. Gall pob grŵp bach weithio ar eu dilyniant arbennig hwy eu hunain. Defnyddiwch amrywiaeth o saethiadau ac onglau er mwyn adeiladu dilyniannau, e.e. saethiadau agos, saethiadau canolig a hir, saethiadau o gynefinoedd ac ati.
- **Ffilmio** Dim ond llond llaw o bobl all weithio gyda'r camera fideo ar y tro, felly unwaith eto, gadewch i bob grŵp ddilyn eu bwrdd stori ac yna ffilmio eu dilyniant eu hunain. Cofiwch ychwanegu ychydig eiliadau at bob saethiad er mwyn rhoi ychydig mwy o ddeunydd i'r golygydd, ond does dim angen ffilmio un saethiad am funudau ar y tro. Os bydd amser yn caniatáu, mae'n werth ffilmio ambell saethiad ychwanegol wrth gefn bob amser.
- **Golygu** Mae'n bosibl i blant mor ifanc â saith oed gymryd rhan yn y gwaith golygu. Er hynny, gall gymryd cryn dipyn o amser, yn enwedig os yw'r prosiect yn un uchelgeisiol a'r amser yn brin. Mewn ambell achos, gall fod mai chi eich hun yn y pendraw fydd yn gwneud cryn dipyn o'r gwaith golygu. Gellir recordio'r

ffilm orffenedig ar DVD neu VHS.

- **Sgrinio** Nid y "première" yw diwedd y stori yn hanes y grŵp. Dylech rannu eich ffilm gyda'r gymuned leol, ysgolion, teuluoedd a'i chynnwys mewn ambell gystadleuaeth. Mae'r dechnoleg ar gael erbyn hyn i'w throsglwyddo dros linellau ffôn i bendraw'r byd, felly peidiwch ag anghofio eich gwefannau!

Beth fydd ei angen arnoch

Dyma restr o'r cyfarpar sylfaenol fydd ei angen arnoch:

- **Fideo-gamera digidol** Dewiswch fideo-gamera digidol (yn hytrach nag analog) ac iddo *optical zoom* pwerus. Mae sawl math ar gael. Rhyw £6 yr un yw cost y tapiau.
- **Camera llonydd digidol** Nid yw'n angenrheidiol, ond gellir ei ddefnyddio i osod lluniau llonydd yn y ffilm. Mae hefyd yn

Gyda'r cyfarpar cywir ac ychydig o arweiniad, gall pobl o bob oed wneud ffilmiau amgylcheddol
With the right equipment and a bit of guidance, people of all ages can make environmental films

Mae iMovie wedi ei gosod yn barod ar gyfrifiaduron Mac, ac mae'r rhaglen yn gyfeillgar iawn i ddefnyddwyr. Gellir prynu'r meddalwedd mwyaf sylfaenol ar gyfer Cyfrifiaduron PC am lai na £100.

Dyma'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer gwneud ffilm gyda chriw o bobl. Dilyn y camau a amlinellwyd uchod yw'r cyngor gorau y gallaf i ei roi – cadwch bethau'n syml, yn fyr a rhowch gynig arni!

Gwneuthurwr ffilmiau ac artist bywyd gwyllt yw Dave Welton ac mae'n arbenigo ar ddefnyddio fideo digidol i gyfathrebu negeseuon am fywyd gwyllt a threftadaeth. Cyswllt: dave@animality.co.uk, tel 01834-810005.



Blue Planet in the school pond

Most of us would agree that film is a powerful form of communication. But as an interpretive medium it tends to put audiences in a passive role – unless they're involved in making the film. **Dave Welton** describes how film can be a hands-on interpretive activity.

We live in an age when the moving image is a dominant form of communication. Interpretation is concerned with explaining the world around us – past, present and future – and film offers a powerful and accessible medium for doing this.

In my early days as a Country Park Ranger, I was aware of the impact of the visitor centre's five-minute video introducing the park. Operated by a push-button connected to a video recorder on a loop, its pictures and commentary were easily understood by adults and children alike. Despite driving the nearby receptionist potty over the years, it always drew the crowds and, as an alternative to a booklet, must have saved swathes of rainforest from the paper mills!

Today I produce similar, high-quality films and take great pride in doing so. However, this tends to bypass the process in which local people are supported in developing a partnership approach to interpretation (described in Shelagh Hourahane's article "Whose place, whose interpretation?" in *Dehongli Cymru* Issue 1). So I have taken film-making a step further and now work with groups of people, helping them make their own short films about their local environment

This approach motivates people to recognise the importance of their

environment or heritage and helps instil a sense of ownership and pride, and inspires them to gather information. Film-making with local people can be used creatively to tell stories, educate and convey messages.

I work mostly with young people to interpret the environment, but this approach will also work well with a range of ages, abilities and subject areas. If you're thinking of using digital video with a group to make a short film, then read on...

Before you rush outside and produce 30 minutes of shaky footage of a faraway swan in the middle of a lake, you must

spend time planning the film. You may not be aiming to rival the BBC's award-winning "Blue Planet" series, but television documentaries are a good place to start. Your group needs to look critically at examples and identify important features and functions. Watch short sections of a range of films and study the different styles, storylines, opening and closing sequences, use of sound and narration etc.

Step-by-step guide

If you follow this sequence with your group, the film will be much easier to produce and the end result will look far more professional.

- **Developing an idea** Work with the group, letting them use their creative ideas rather than imposing yours. They will then feel a sense of ownership. Discuss why you are making a film, who the audience is, the style of film, how long it's going to be, and finally the storyline.
- **Research** Get the facts right by using books, the web, magazines etc. It may be useful here to split people up into smaller groups who can concentrate on different components or sequences of the film.
- **Storyboard and script** Each shot in the whole film should be drawn in sequential



Photographs by Dave Welton

Plant yn mwynhau dysgu technegau proffesiynol wrth ffilmio bywyd gwylt
Children enjoy learning professional wildlife-filming techniques

boxes, like a cartoon strip. Each small group can work on their particular sequence. Use a variety of shots and angles to build up sequences such as close-ups, mid and long shots, habitat shots etc.

- **Filming** Only a few people can work with the video camera at one time, so again let each group follow their storyboard and film their own sequence. Always add a few more seconds to each shot to give the editor more to work with, but there is no need to film one shot for minutes on end. If you have time it's always worth filming a few extra shots as a back up.
- **Editing** It's possible for children as young as seven to be involved in editing. However, this can be very time-consuming, especially with an ambitious project and limited time. In some cases you may end up editing much of the film yourself. The finished film can be recorded onto DVD or VHS.
- **Screening** The "premiere" for the group isn't the end of the story. Your film should be shared with the local community, schools, family and even entered into competitions. We now have the technology to send it down the telephone line to the other side of the world, so don't forget your web sites!

What you need

Here's a basic list of the equipment you will need:

- **Digital video camera** Choose a digital video camera (as opposed to analogue) with a powerful optical zoom. There are many kinds available. Tapes cost about £6 each.
- **Digital still camera** Not essential, but can be used to insert still pictures into the film. Also useful for occupying the rest of the group while others are filming.
- **Tripod** A normal good quality tripod suitable for a still camera will do.
- **Headphones** You need these to monitor sound when filming.
- **Bird hide** This can be useful to film birds and animals close-up.
- **Computer** You need a PC or Mac with basic film-editing software. Macs come with iMovie installed, which is very user-friendly. For PCs the most basic software can be bought for under £100.

These are the basic principles for making a film with a group of people. My best advice is to follow the steps I've outlined, keep it simple, keep it short, and have a go!

Dave Welton is a film-maker and wildlife artist, specialising in the use of digital video for communicating messages about wildlife and heritage. Contact: dave@animality.co.uk, tel 01834-810005.

Tavernspite's Newsround

Tavernspite Primary School in Pembrokeshire is putting a big emphasis on environmental education. I recently worked with Year Six to make a short film showing how they were using the school grounds to help the environment. They decided on a "Newsround" style of programme, looking at different areas around the school.

As a starting point the 30 children watched footage of wildlife films to help them understand the process that goes into this sort of film. Groups within the class then made storyboards for their own short sequences, each covering a different area of the school. Volunteers were allocated roles as newsreaders and reporters.

All 30 pupils were involved in the filming, either through or in front of the lens. I worked on the footage, edited it, and transferred it to DVD. The finished film lasted 6 minutes 30 seconds

The whole process, from planning to screening, took four days. As this was a school project, I also prepared a scheme of work to show how the film would fit in with the Year Six curriculum.

The school sees the film as an important resource to share with parents, governors and the community, to show how much the school is doing to help the environment and promote eco-friendly values and beliefs.

Gwirfoddolodd disgyblion Tafarn Ysbyty i ymgymryd â gwaith dynion camera, peirianwyr sain a newydd-iadurwyr
Tavernspite pupils volunteered for roles as camera-operators, sound engineers and reporters.





Fotograffau gan Stuart Evans

Lluniodd grwpiau cymunedol “gynulleidfa newydd” o ffigurau gwir faint
Community groups made a “new audience” of life-size figures

Ruth Jên Evans yn gweithio gyda'i grŵp yng nghanolfan yr henoed
Ruth Jên Evans working with her group at the senior citizens' centre



Llanbadarn, cartref i bobl sy'n dioddef o anhwylderau iechyd meddwl.

Gan mai diben y prosiect hwn oedd creu “cynulleidfa newydd”, dyma ni'n penderfynu ymateb yn llythrennol. Mae balconïau haeam bwrw gwreiddiol awditoriwm yr hen theatr yn dal yn eu lle, felly gofynnwyd i bob un o grwpiau'r gymuned fynd ati i greu ffigurau gwir faint, dau-ddimensiwn, a'u gosod i eistedd yn y seddau ar y balconi.

Daeth pob un o'r tri grŵp i weld yr arddangosfa Ar Bapur/On Paper, er mwyn cael rhywfaint o ysbrydoliaeth cyn creu eu gweithiau celfyddydol eu hunain yn y canolfannau lle byddan nhw'n cyfarfod fel arfer. Cychwynwyd ar y gwaith drwy fraslunio a thrafod y technegau a ddefnyddiwyd gan y tair gwraig wrth lunio'r printiau a'r cerflunwaith oedd i'w gweld yn yr arddangosfa. Wedyn aeth pawb oddi yno er mwyn bwrw at y gwaith o greu'r cymeriadau llawn maint, gan ddefnyddio collage, paent, glud a cherdyn er mwyn iddyn nhw fod mor gyffrous a lliwgar â phosibl.

Bu pob un o'r artistiaid yn gweithio gyda'i grŵp am gyfanswm o bum awr, ac aeth pob un ohonyn nhw i'r afael â'r cynllun yn ei ffordd unigryw ei hun. Parhaodd staff y canolfannau â rhai o'r sesiynau celf wedi i'r artist ymadael. Yn dilyn hyn, aethpwyd â'r ffigurau i Amgueddfa Ceredigion ac maent bellach yn cael eu harddangos yn y prif awditoriwm. Mae'r Amgueddfa hefyd wedi cynhyrchu llyfryn sy'n sôn am y prosiect.

Cynhaliwyd te parti mawreddog pan gwblhawyd y prosiect ac agorwyd yr arddangosfa gan Linda Tomos o Cymal. Gwahoddwyd pob aelod o'r tri grŵp i'r wledd a rhoddwyd cryn dipyn o sylw i'r digwyddiad yn y wasg leol. Mae'r bobl fu'n brysur yn creu cymeriadau'r “gynulleidfa newydd” bellach yn ymweld â'r Amgueddfa a phob un ohonynt yn falch o'r cyfle i arddangos eu gwaith.

Mae Stuart Evans yn Ddyluniwr yn Amgueddfa Ceredigion.

Cyswllt: stuarthe@ceredigion.gov.uk, tel: 01970-633078

Cymeriadau lliwgar yn y Coliseum

Mae prosiect celfyddydol llawn dychymyg yn Amgueddfa Ceredigion wedi creu “cynulleidfa newydd” mewn mwy nag un ystyr.

Stuart Evans sy'n esbonio.

Hen Theatr y Coliseum a agorwyd ym 1905 yn Aberystwyth yw cartref Amgueddfa Ceredigion. Wrth i ganmlwyddiant yr adeilad ddynesu, roedd datlu ei ddefnydd gwreiddiol fel theatr yn ymddangos yn beth digon amserol. Ar yr un pryd, mae'r Amgueddfa yn awyddus i gyrraedd cynulleidfa oedd newydd ac i ehangu ei gwaith ym maes addysg.

Bydd grwpiau o blant ysgol yn aml yn ymweld â'r Amgueddfa, ond drwy gyfrwng cynllun a gychwynwyd gan Gyngor

Amgueddfeydd Cymru (Cymal erbyn hyn), aethpwyd ati i hyrwyddo'r syniad o gynnwys yn ein gweithgareddau grwpiau o drigolion lleol nad ydynt fel arfer yn mynychu gweithdai mewn amgueddfeydd. Buom yn llwyddiannus yn ein cais am grant i Cymal er mwyn ariannu ein prosiect “cynulleidfa oedd newydd”.

Trefnwyd arddangosfa – Ar Bapur/On Paper – a oedd yn cynnwys enghreifftiau o waith print a cherflunwaith yr artistiaid, Gwenllian Beynon, Ruth Jên Evans a Luned Rhys Parri, yn Oriol Amgueddfa'r Coliseum. Fel rhan o'r sioe, gwahoddwyd yr artistiaid i gyflwyno cynulleidfaoedd newydd i'r Amgueddfa a'r Oriol. Ar ein cais, bu'r tair yn gweithio'n uniongyrchol gyda thri grŵp o drigolion lleol.

Dewiswyd y tri grŵp canlynol – Canolfan Gweithgareddau Cymdeithasol, Llanbadarn, sef canolfan galw heibio ar gyfer pobl sydd ag anawsterau dysgu; Canolfan Ddydd Coedlan y Parc, canolfan yr henoed yn Aberystwyth, a thrigolion Plas Lluest yn

The Ceredigion Museum is housed in Aberystwyth's old Coliseum Theatre, which opened in 1905. As the centenary approached, it seemed timely to celebrate the building's original use as a theatre. At the same time, the Museum wants to reach new audiences and expand its educational work.

School groups often visit the Museum, but a scheme set up by the Council of Museums in Wales (now Cymal) promoted the idea of involving groups of local people who don't normally come to museum workshops. We were successful in getting a grant from Cymal for our "new audiences" project.

The Museum's Coliseum Gallery hosted the exhibition *Ar Bapur/On Paper*, a display of new print and sculpture work by artists Gwenllian Beynon, Ruth Jên Evans and Luned Rhys Parri. As part of the show the artists were invited to introduce new audiences to the Museum and Gallery. We asked them to work directly with three groups of local people.

The three chosen groups were the Social Activity Centre in Llanbadarn, a drop-in day centre for people with learning difficulties; the Park Avenue Day Centre, a drop-in centre for senior citizens in Aberystwyth; and residents of Plas Lluest in Llanbadarn, a home for people with mental health problems.

Because the purpose of this project was to create a "new audience", we decided to take this literally. The auditorium of the old theatre still has its original cast-iron balconies, so the brief for each community group was to make life-size two-dimensional figures to sit in the balcony seats.

Each of the three groups visited the *Ar Bapur/On Paper* exhibition to gain inspiration before creating their own art works back at the centres where they normally meet. They started by sketching and discussing the techniques used by the three artists to create the exhibited prints and sculptures. They then went away to work on the life-size figures, using collage, paint, glue and



Photographs by Stuart Evans

Helpodd Luned Rhys Parri gyfranogwyr y gweithdy i greu'r cymeriad lliwgar hwn
Luned Rhys Parri helped workshop participants make this colourful character



Dechreuodd y cyfranogwyr drwy ymweld â'r arddangosfa a mynd ati i fraslunio
Participants started by visiting the exhibition and sketching

Colourful characters at the Coliseum

card to make the characters look as exciting and colourful as possible.

Each artist worked with her group for a total of five hours, and each approached the scheme in her own unique way. Some of the art sessions were continued by staff at the centres after the artist had left. The resulting figures were taken to Ceredigion Museum and are now on display in the main auditorium. The Museum has also produced a booklet about the project.

There was a grand tea party when the project was completed, with Linda Tomos of Cymal opening the exhibition. Everyone from the three groups was invited and the event received considerable local publicity. The people who created the "new audience" figures now visit the Museum, and are proud to have their work on display.

Stuart Evans is Designer at Ceredigion Museum.
Contact: stuarte@ceredigion.gov.uk,
tel: 01970-633078

An imaginative arts project at Ceredigion Museum has created a "new audience" in more ways than one.

Stuart Evans explains.



Gwenllian Beynon yn trafod technegau artistiaid gyda'i grŵp
Gwenllian Beynon discusses artists' techniques with her group



Myfyrdodau themateg o Gaerdydd

Sam Ham, un o awdurdodau mwyaf y byd ar ddehongli, oedd arweinydd sesiynau hyfforddi cyntaf erioed Dehongli Cymru a gynhaliwyd ar 11-12 Ionawr 2005 yn Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Cymru. Daeth 50 o bobl o Gymru a thu hwnt i'r gweithdy oedd yn canolbwyntio ar ddehongli themateg, dull cyflwyno y mae Sam wedi bod yn ei gefnogi drwy gydol ei yrfa. Aeth pedwar o gyfranogwyr y gweithdai ati i groniclo eu hymateb i'r digwyddiad.

I mi, roedd gweithdy Sam Ham yn brofiad hynod bleserus ac ysbrydoledig tu hwnt. Roedd fy ffrind, sy'n swyddog mynediad, wedi dweud wrthyf y llynedd, ar ôl iddi fod yn un o weithdai Sam Ham, y byddai'n dwli cael gweithio ym maes dehongli. Nawr, a minnau bellach wedi cael yr un profiad, rwy'n deall yn union pam roedd hi'n teimlo fel hyn.

Mae dull Sam o gyflwyno yn uniongyrchol a brwdfrydig dros ben, ac mae'n dal eich sylw o'r cychwyn. Parodd i mi feddwl fod gan ddehongli rôl bwysig i'w chwarae yn y dasg o ddylanwadu ar feddyliau, teimladau a gweithrediadau pobl a bod modd i ni wneud gwahaniaeth er gwell.

Fel rhywun sy'n newydd i'r byd dehongli, roedd y gweithdy yn agoriad llygad go iawn i mi. Roedd cysyniad Sam o themâu "kick-ass" yn bryfoclyd. Mae pwysigrwydd meddwl yn themateg a galluogi'r gynulleidfa i ganfod ystyr o'r dehongliad ei hun yn gysyniadau rwy' i wedi bod yn ymdrechu'n galed i gael

pobl i'w deall, ond dylai dull TTPP Sam (Themateg, Trefnus, Perthnasol, Pleserus) hwyluso'r dasg hon gryn dipyn.

Yn y gorffennol, mae dehongli wedi canolbwyntio'n ormodol ar gyflwyno gwybodaeth tra bod llwyddiant yn cael ei werthuso drwy brofi'r gallu i alw ffeithiau i gof. Erbyn hyn, rwy'n deall nad yw hyn yn dweud dim byd defnyddiol wrthon ni ac mai'r nod pennaf, yn y pendraw, yw pricio pobl i feddwl am yr ystyr drostynt eu hunain.

Y wers bwysicaf i mi oedd deall y gwahaniaeth rhwng thema wan a thema gadarn. Nid yw ysgrifennu thema rymus sy'n pricio'r meddwl yn gamp hawdd, fel y profodd y dasg ymarferol. Mae'n gofyn am gryn dipyn o amser ac ymarfer ond mae'r effaith yn cyfiawnhau'r ymdrech. Dyna beth oedd dau ddiwrnod arbennig ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at y sesiynau hyfforddi nesaf.

Delyth Phillipps

*Swyddog Dysgu a Dehongli,
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (Cymru)*

Gyda geiriau Sam Ham yn dal i adleisio yn fy nghlustiau, bûm yn gwylio rhaglen deledu'n ddiweddar am ymgyrch hysbysebu Saatchi. Roedd y gwaith o hyrwyddo poteli o wirod o Brazil yn gofyn am greadigrwydd a dychymyg di-ben-draw. Y nod oedd gafael yn y gynulleidfa darged, sef yfwrw ifainc. O safbwynt thema, dyma'r math o frawddeg fyddai'n dod i'r meddwl: "Er mwyn denu edmygwyr, dylech yfed X".

Y gwahaniaeth rhwng hysbysebu a dehongli yw nid brys y neges na chydio mewn cynulleidfa hyd yn oed – mae'r rhain yn nodau cyfrannol – ond yr hyn sy'n cael ei weld fel amcanion addysgol a hysbysiadol mwy aruchel dehongli.

Tra'n cydnabod pwysigrwydd cyfraniad thema at feddwl deongliadol uniongyrchol, rhan yn unig o brofiad ymwelwyr o le arbennig yw hwn. Bydd pobl yn dehongli'r profiad (a'r dehongliad) mewn ffyrdd unigryw a chreadigol.

Mae'r celfyddydau, yn eu holl ffurfiau, yn ffordd ragorol o gyflwyno neges sydd, ambell dro, yn gymhleth neu'n hynod soffistigedig. Ond maent hefyd yn gyfrwng i gymunedau roi mynegiant i'r nodweddion hynny sy'n eiddo iddynt hwy a'u hamgylchfyd sy'n cael eu parchu ganddynt. Ac mae hon yn broses ddemocratig.

Mae'r ddadl o blaid gweld timau dehongli yn gweithio o'r cychwyn gyda'r rhai fydd yn ymwneud â'r dehongliad yn y pen draw – yn gleientiaid a chymunedau fel ei gilydd – yn un gref. Rhaid gwrandao ar nifer o leisiau. Bydd angen amser, amynedd a hyblygrwydd, ac mae'n bosibl nad yr un fydd yr amcanion a'r brif thema â'r rhai a ddarluniwyd ar y dechrau, ond dyma fydd yr union thema i'r lle hwnnw ar yr adeg honno.

Mewn gwlad ddwyieithog fel Cymru, mae'r straeon sy'n gysylltiedig â lle arbennig yn dra gwahanol ar adegau yn achos pob grŵp iaith, ac felly mae gan y naill a'r llall flaenoriaethau gwahanol ac mae eu dirnad-aeth a'r modd y byddant yn dehongli manau a digwyddiadau yn amrywio, a hynny mewn ffordd gynnil iawn.

Mae dull Sam Ham o fynd i'r afael â

dehongli thematig yn un sylfaenol ac angenrheidiol. Ond gyda chynifer o leisiau a safbwyntiau, ac ystod mor eang o gyfryngau a thechnegau, sut yn y byd y gall un neges ddiffiniedig fod yn ddigon?

Byddai'n dda cael rhywfaint o hyfforddiant ar sut i bennu thema drwy ymgynghori gyda chleientiaid a chymunedau. Byddai'r broses honno yn amlygu'r gwahaniaeth mawr rhwng hysbysebu a dehongli. Allwch chi ddychmygu cwmni Saatchi yn gwahodd cynulleidfa darged i eistedd wrth fwrdd i drafod beth, yn eu barn hwy, fyddai orau ar gyfer eu hiechyd ac er eu lles econom-aidd yn y dyfodol? Cam gwirioneddol chwyldroadol fyddai hwnnw'n wir!

Lynne Denman

Cyd-Gyfarwyddwr, partneriaeth gelfyddydol Creu-ad

Rwy' wedi bod â rhan mewn dehongli ers y dyddiau hynny pan roeddech chi'n cael Gwobr Tywysog Cymru am fynd am drochfa mewn llyn. Ond un o'r pethau cyntaf a'm trawodd ynghylch gweithdy dau ddiwrnod Sam Ham yng Nghaerdydd oedd cyn lleied o bobl roeddwn i'n eu hadnabod. Dyma arwydd iach. Fel yn achos cadwraeth byd natur, mae'r hyn ddechreuodd fel mudiad a chanddo hanner dwsin o aelodau unfryd, bellach yn ddiwydiant llewyrchus.

Roedd dull Sam o ymdrin â dehongli fel proses thematig yn ymddangos yn rhesymegol iawn i fi – roedd bron iawn yn air i'n cyfeirio nôl at yr hanfodion. Fedrwn i ddim llai na meddwl am yr effaith gafodd Steve Van Matre ar fy mhrosesau meddwl, dros 20 mlynedd yn ôl, pan ofynnodd y geiriau "What are your ons, and what are your tos?"

Mewn geiriau eraill, beth yw lefel ymwybyddiaeth eich cynulleidfa o'ch testun ar hyn o bryd, a beth ddylai eu lefel gwybodaeth, dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad fod wedi iddyn nhw eich gadael? Sut fyddwch chi'n arwain eich cynulleidfa i ddefnyddio'u hawydd naturiol i glymu ynghyd unrhyw dameidiau gwybodaeth gan ddod yn y pen draw at eich casgliad

chi? Yn y fan honno'n union mae'r thema'n gorwedd yn eich hanes chi.

Pan fu Andrew Pierssene, Sally Wright a minnau'n arwain cyfres o gyrsiau hyfforddi yng Nghaerdydd (eto, bron 20 mlynedd yn ôl), roeddem yn annog ein cyfranogwyr i ddilyn pob datganiad gwerth chweil mewn darn o waith dehongli gyda dau air iasol ond effeithiol: pa ots? Bydd ystum yn bwyta 3,000 o wybed bob nos – pa ots? Buodd Oliver Cromwell yn cysgu fan hyn – pa ots?

Rhododd Sam gryn gysur i fi yn ei ddull o ymdrin â'r pwnc hwn drwy ddweud yn bendant "Mae thema yn ateb y cwestiwn pa ots?"

O gael y cyfle i fynychu a mwynhau gweithdy Sam, cadarnhaodd hyn fy nheimlad y dylai dehongli fod yn broses sy'n cael ei chynllunio a'i threfnu'n dda, gyda chryn dipyn o feddwl yn cael ei roi i bob cam. Dylai ymwybyddiaeth o ble mae ein cynulleidfa nawr fod yn flaenllaw yn ein meddyliau drwy'r amser, yn ogystal â ble'r rydym ni'n awyddus iddyn nhw fod.

Cefais gyfle'n ddiweddar i ofyn i gyfarwyddwr un o'r atyniadau mwyaf i ymwelwyr sydd i'w weld yn y wlad sut y gellid newid agwedd ei ymwelwyr o ganlyniad i'w hymweliad. Beth fyddai e'n hoffi meddwl oedd eu teimladau wrth iddyn nhw gerdded drwy'r allanfa? Atebodd yn syfrdan nad oedd erioed wedi meddwl am y peth.

Ni fyddai unrhyw un o gynulleidfa Sam Ham fyth yn gwneud y camgymeriad hwnnw!

Phil Jayne

Rheolwr, Gwasanaethau Cefn Gwlad a Thirwedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Roeddwn i'n hoff o honiad Sam Ham sef mai'r "nod yw cynorthwyo ymwelwyr i greu ystyr". Mae hyn yn cydnabod ein bod yn cyfuno gwybodaeth newydd gyda hen wybodaeth, wedi'i thynnu o'n hatgofion a'n profiad o fywyd, er mwyn creu ystyr drosom ein hunain.

Mae ystyr, felly, yn cael ei chreu drwy ddeialog o ryw fath, naill ai ymddiddan

mewnol – ym meddwl person – neu sgwrs allanol, rhwng y person hwnnw a phobl eraill. I ddyfynnu Sam Ham, "mae meddwl, synnu, myfyrio, ystyried yn arwain at ystyr". Mae creu ystyr, felly, yn orchwyl gweithredol yn hytrach na goddefol.

Roeddwn hefyd yn croesawu'r anogaeth i dreulio amser yn ailymweld â negeseuon a gofyn a oes modd eu gwella. Mae fy mhroses i o ysgrifennu yn dibynnu ar adolygu'r neges arfaethedig yn barhaus. Fedra' i ddim ysgrifennu heb yn gyntaf ddarganfod y negeseuon, ond fedra' i ddim fforddio gadael i hynny bennu beth fyddaf yn ei ysgrifennu, costied a gostio. Rhaid cael hyblygrwydd.

Ond dydw i ddim yn siŵr am y syniad o "gylchfa goddefgarwch". Mae hyn fel pe bai'n golygu ei bod yn dderbyniol i bobl fynd â rhywbeth tebyg i'r neges roeddech chi'n dymuno'i chyfleu i ffwrdd gyda nhw, ond nid yr union neges honno o reidrwydd. Ond rwy'n credu fod y "gylchfa goddefgarwch" hon yn awgrymu'r gred mai un casgliad yn unig sydd i'w dynnu, a'r casgliad hwnnw yw'r un a bennwyd ar y cyd gan y cleient a'r dehonglwr. Rwy'n anghytuno. Rydym yn cyflwyno'r hyn sy'n ddiddorol i ni yn y gobaith rhesymol y bydd o ddiddordeb i eraill, ond gwyddom nad dyna fel y mae pethau bob tro.

Rwy'n poeni rhyw ychydig hefyd am yr elfen efengylaidd sy'n ymhlyg yn y dull thematig. Nid yw pob thema yn ceisio newid ymddygiad neu agwedd ond mae'r themâu sy'n gofyn am hynny yn gallu dod â dehonglwyr wyneb yn wyneb â dewisiadau moesegol neu wleidyddol.

Tra bod y dull thematig yn well na rhoi i ymwelwyr gybolfa o wybodaeth a'u gadael i osod pob darn yn ôl trefn pwysigrwydd, gall hefyd fod yn brin o gynildeb a nawws. Ein cyfrifoldeb ni fel dehonglwyr, drwy ddefnyddio ein dealltwriaeth o'r testunau a'n profiad yn y math hwn o waith, yw sicrhau nad yw'r cynnyrch yn gynnrych un dimensiwn neu fas.

Omar Sattaur

Awdur deongliadol annibynnol



Thematic thoughts from Cardiff

Sam Ham, one of the world's top authorities on interpretation, led the first-ever Dehongli Cymru training event on 11-12 January 2005 at the National Museum & Gallery of Wales. Attended by 50 people from Wales and further afield, the workshop focused on thematic interpretation, an approach Sam has championed throughout his career. Here, four workshop participants offer their responses to the event.

I found Sam Ham's workshop highly enjoyable and very inspiring. I'd been told by a friend who's an access officer that after attending a Sam Ham workshop last year she wished she worked in interpretation. Now, having experienced one myself, I understand exactly why she felt this way.

Sam has a very direct and enthusiastic delivery style, which engages you from the onset. He made me realise that interpretation has an important role to play in influencing people's thoughts, feelings and actions and that we are able to make a positive difference.

As a relative newcomer to interpretation, I found the workshop a real eye-opener. Sam's concept of "Kick-ass themes" was provocative. The importance of thinking thematically and allowing the audience to derive meaning from interpretation are concepts I've been struggling to get across to people but Sam's TORE (Thematic, Organised, Relevant and Enjoyable) model should make this job far easier.

In the past, interpretation has focused far

too much on the delivery of information and evaluation of success has been to test the recall of facts. I now understand that this doesn't tell us anything useful and that provoking people to think about the meaning for themselves is the real end game.

The most important lesson for me was understanding the difference between a weak and a strong theme. Writing a powerful, thought-provoking theme is not a simple task, as the practical exercise showed. It involves lots of time and practice but the impact is well worth the effort. It was a great two days and I look forward eagerly to the next training event.

Delyth Philipps

*Learning & Interpretation Officer,
National Trust (Wales)*

With Sam Ham's words still ringing in my ears, I recently watched a TV programme about a Saatchi advertising campaign. Great creativity and imagination went into promoting bottles of Brazilian

spirit. The aim was manipulation of the target audience of young drinkers. In thematic terms, the sentence in your head would be something like: "To be truly admired, you need to drink X".

The difference between advertising and interpretation is not the urgency of the message or even the manipulation of an audience – these are shared goals – but the perceived loftier educational and informational objectives of interpretation.

Whilst recognising the importance of a theme to direct interpretive thinking, it is still only a part of the experience of a place for visitors. People interpret the experience (and the interpretation) in unique and creative ways.

The arts in all their manifestations are a great way to deliver a sometimes very complex or sophisticated message. But they are also the means by which communities can express what they value about themselves and their environment. And this is a democratic process.

There is a strong case for all interpretation teams to work from the outset with those to whom the interpretation is to be delivered – clients and communities alike. There will be many voices to listen to. Time, patience and flexibility will be needed, and the objectives and main theme may not be those envisioned at the outset, but it will be the right one for that place at that time.

In a bilingual country like Wales the stories connected with place are sometimes significantly different for each language group, so each has different priorities and subtly different perceptions and interpretations of places and events.

Sam Ham's approach to thematic interpretation is fundamental and necessary. But with so many voices and viewpoints, and such a range of media and techniques, how can only one defined message be enough?

It would be good to have some training in arriving at a theme in consultation with clients and communities. That process would make clear the great distinction between advertising and interpretation.

Can you imagine the Saatchis inviting a target audience to sit round a table and discuss what they thought would be best for their future health and economic well-being? That would be truly revolutionary!

Lynne Denman

Co-Director, Creu-ad arts partnership

I've been involved in interpretation since the days when you got a Prince of Wales Award for doing a pond dip. But one of the first things that struck me about the two-day Sam Ham workshop in Cardiff was how few people I knew. This is a healthy sign. Like nature conservation, what started as a movement of half a dozen like-minded people has now become a thriving industry.

Sam's approach to interpretation as a thematic process seemed very logical to me, almost a back-to-basics reminder. I couldn't help thinking about the effect on my own thought processes of seeing Steve Van Matre, over 20 years ago, asking "What are your ons, and what are your tos?"

In other words, what is your audience's existing level of awareness of your topic, and what should be their level of knowledge, understanding and appreciation after they leave you? How do you lead your audience to use their natural thirst to tie together loose ends and arrive at your conclusion? Therein lies your theme.

When Andrew Pierssene, Sally Wright and I led a series of interpretation training courses in Cardiff (again, nearly 20 years ago) we encouraged our participants to follow every worthy statement in a piece of interpretation with two chilling but effective words: so what? A bat eats 3,000 midges a night – so what? Oliver Cromwell slept here – so what?

Sam gave me considerable comfort in his approach to this issue by stating emphatically: "A theme answers the question so what?"

Attending and enjoying Sam's workshop confirmed my feeling that interpretation

Cyfranogwyr y gweithdy yn cyflwyno eu themâu deongliadol
Workshop participants present their interpretive themes



should be a well planned, ordered process, with considerable thought given to each step. We should always have, at the front of our minds, an awareness of where our audience is now, and where we want them to be.

I recently had the opportunity to ask the director of a nationally-significant visitor attraction how he felt his visitors' attitudes could be changed as a result of their visit. What would he like their feelings to be as they walked through the exit? He answered, disconcertingly, that he had never really given it any thought.

None of Sam Ham's audience would ever make that mistake!

Phil Jayne

Manager, Countryside & Landscape Services, Caerphilly County Borough Council

I liked Sam Ham's assertion that "the aim is to help visitors to make meaning". This recognises that we combine new information with old information, drawn from our memories and experience of life, to construct meaning for ourselves.

Meaning is thus made through some kind of dialogue, either internal – within a person's mind – or external, between that person and other people. To quote Sam Ham, "thinking, wondering, pondering, contemplating lead to meaning". Making meaning is therefore an active rather than passive pursuit.

I also welcomed the encouragement to

spend time revisiting messages and asking whether they can be improved. My own writing process relies on continually revisiting the proposed message. I can't write without first discovering the messages, but I can't afford to let that dictate at all costs what I write. There must be flexibility.

But I'm not sure about the "zone of tolerance" idea. This seems to mean it's acceptable for people to take away something akin to the message you wished to convey but not necessarily the precise message. But I think "zone of tolerance" implies the belief that there is only one conclusion to be drawn, and that is the one the client and interpreter have come up with. I do not agree. We present what is interesting to us in the reasonable hope that it will interest others, but know that isn't always the case.

I'm also concerned about the implicit evangelism of the thematic approach. Not all themes seek behavioural or attitudinal change but those that do may present interpreters with ethical or political choices.

Whilst the thematic approach is preferable to presenting visitors with a jumble of information and leaving them to prioritise the importance of each piece, it may also lack subtlety and nuance. It's up to us as interpreters, using our understanding of the issues and our experience in this kind of work, to ensure that the product is not one-dimensional or shallow.

Omar Sattaur

Freelance interpretive writer

Cynllunio breuddwyd yn Nant yr Arian

Ychydig dros flwyddyn yn ôl, roedd gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ddigon o arian mewn llaw i godi canolfan ymwelwyr eu breuddwydion ym Mwlch Nant yr Arian. **Steven Richards-Price** sy'n disgrifio sut mae'r gwaith yn dod yn ei flaen.



Mae'r ganolfan newydd i ymwelwyr, a gynlluniwyd gan Acanthus Holden, yn cyfleu negeseuon drwy ei dyluniad a'i defnyddiau
The new visitor centre, designed by Acanthus Holden, conveys messages through its design and materials

Mae Bwlch Nant yr Arian, yng Nghanolbarth Cymru, yn cynnig golygfeydd dramatig a theithiau cerdded deniadol ac mae'n fan poblogaidd i wyllo'r barcud coch. Roedd angen canolfan ymwelwyr newydd, mwy o faint arnom, ar gyfer y nifer cynyddol o bobl sy'n ymweld â'r safle, ac yn eu plith yr holl feicwyr mynydd oedd wedi dechrau defnyddio'r llwybrau a osodwyd gennym at y diben hwnnw.

Pan aethom ati i dendro am adeiladwyr, sylweddolwyd fod y cynnig rhataf 50% yn uwch na'n cyllideb. Dysgwyd dwy wers o hyn i gyd: yn gyntaf, fod popeth wedi cynyddu yn ei bris ers i ni gwblhau'r prisiadau cyntaf, ac yn ail, nad yw adeiladwyr, yn ôl pob golwg, yn hoff iawn o lechweddau neu unrhyw fan sydd heb fod wrth ymyl ffordd.

Bu'n rhaid i ni geisio gwneud arbedion enfawr ac roedd hyn i gyd yn golygu symud darpar safle'r adeilad a newid y cynllun gwreiddiol. Tybed a oes gan unrhyw un brofiad o ddefnyddio dull Dylunio ac Adeiladu er enghraifft, a fyddai wedi osgoi hyn, o bosibl?

Dechreuwyd ar y gwaith adeiladu o'r diwedd a fi oedd yn gyfrifol am wario'r gyllideb ddehongli. Roedd rhaid gosod y gwaith i gyd ar dendr, felly dyma geisio wynebu'r cwestiwn cyntaf: sut mae rhannu'r gwaith?

Euthum ati i baratoi cynllun cyflwyno deongliadol oedd yn clustnodi'r prosiectau fel rhai dylunio graffig, celfwaith deongliadol neu glywedol, ac yna paratowyd tendrau yn unol â hynny. Golygai hyn, wrth gwrs, fod angen nodi pa gyfrwng roeddem ni'n mynd i'w ddefnyddio. Mae rhai o'r farn fod hyn i gyd yn rhy gyfarwyddol, ond golygai hefyd nad oes unrhyw berygl mai'r dylunydd yn unig fydd yn llywio'r gwaith.

Ymhlith eitemau eraill oedd yn mynnu sylw roedd gwe-gamerâu ar gyfer nythod a manau bwydo'r barcud coch, arwyddion newydd ar gyfer y safle, arwyddion brown twristiaeth, a dewis manau cyfeiriadu. Rhaid i dîm cynnal y prosiect ehangach hefyd wynebu'r dasg o gydlynu'r tirweddu, y safleoedd parcio, gwasanaethau, meysydd chwarae, llwybrau ac ati.

Mae cwrdd â'r trefynau amser gafodd eu pennu yn y tendrau wedi bod yn anodd, oherwydd yr oedi a fu yn y broses adeiladu. Os nad oes llawr gyda chi, mae'n anodd gosod murlun yn ei le! Yn ffodus iawn, mae'r criw diddan o arbenigwyr sy'n gweithio ar y prosiect yn bobl amyneddgar a goddefgar, ond wrth reswm, mae'r sefyllfa ymhell o fod yn un ddelfrydol.

"Dehongli integredig" yw'r enw a roddais i ar ein dull o weithredu. Does yna ddim arddangosfa sefydlog, ond fe ddaw'r ymwelwyr wyneb yn wyneb â dehongli wrth iddyn nhw ddefnyddio cyfleusterau'r ganolfan. "Byddwch yn dod ar draws nifer o nodweddion 'gwyrrdd' yn ein canolfan newydd i ymwelwyr" – dyna'r thema ganolog. Daw'r ymwelwyr i ddeall y neges hon, a hynny mewn ambell fan braidd yn annisgwyl, gan gynnwys y tŷ bach (gweler blwch).

Rydym wedi defnyddio cryn dipyn o goed lleol yn y gwaith adeiladu a byddwn yn esbonio hyn drwy ysgrifennu negeseuon byr ar y pren. Defnyddir pedwar math o

Dehongli wrth fynd yn eich blaen

Mae ein dull ni o "ddehongli integredig" yn golygu y bydd pobl yn dod wyneb yn wyneb â dehongli wrth iddyn nhw ddefnyddio cyfleusterau'r ganolfan ymwelwyr.

Byddan nhw'n gweld esboniad ar gefn drysau'r tai bach fydd yn dangos sut y defnyddir y dŵr glaw sy'n cael ei gasglu o'r to yn sestonau'r toiledau a'r olchfa feiciau:

Loo Skywater yn Nant yr Arian?

Na – nid cymeriad o'r ffilm Star Wars – mae'r tŷ bach rydych chi ar fin ei wacáu yn defnyddio dŵr glaw sy'n cael ei gasglu o'r to

Gyda chartwŵn yn dangos sut mae'r broses yn gweithio.

Ar glawr sedd y toiled, ceir esboniad ar gompostio: **Gwnewch chi'ch rhan chi – fe wna' i'r gweddill ... gan droi eich gwastraff yn gompost briwsionllyd**

Pan fydd pobl yn llochesu wrth ymyl y ganolfan ymwelwyr, fe welan nhw banel yn sôn am system wresogi sy'n defnyddio pren fel tanwydd: **Canolfan ymwelwyr sy'n cael ei gwresogi gan sglodion?** Nid sglodion tatws, ond yn hytrach sglodion pren o goedwigoedd lleol *Gyda chartwnau yn dangos y broses o wneud sglodion o'r goedwig i'r peiriant malu, i'r lori, i'r boeler.*

bren caled ar gyfer y llawr, er enghraifft, a byddwn yn ysgythu enw'r rhywogaeth ac o ba wlad y daw'n wreiddiol ar rai o estyll y llawr. Bydd napcynnau papur yn dangos y prif rywogaethau coed a ddefnyddiwyd er mwyn darparu pren ar gyfer yr adeilad.

Yng nghornel y plant, byddwn yn gosod byrddau siâp dyfrgwn a moch daear, stolion cnapiog siâp boncyff yn ogystal â theganau chwarae o bren, a'r cyfan wedi dod yn wreiddiol o goedwigoedd lleol.

Mae ffenestri'r adeiladau yn enfawr ac yn ymestyn o'r llawr i'r nenfwd; gyferbyn â'r rhain mae gofod wal sy'r un mor anferthol o fawr. Byddwn yn defnyddio'r wal hon fel "cynfas gwag" ar gyfer dehongli dros dro a fydd, mae'n siŵr, o ddi-ddordeb parhaus i ymwelwyr lleol a'r rhai fydd yn dychwelyd dro ar ôl tro. Byddwn yn gosod sgriniau yn eu lle er mwyn dangos ffilimiau byw o'r barcutiaid yn bwydo, a'u nythod hefyd gobeithio.

Prif thema'r awyr agored yw: "Mae Bwlch Nant yr Arian yn gyrchfan unigryw oherwydd ei dirwedd, ei fywyd gwyllt a'i

dreftadaeth ddiwylliannol". Bydd is-themâu yn canolbwyntio ar bob un o'r tri phennawd hyn.

Bydd gennym nifer o flychau clywedol clocwaith fydd yn adrodd chwedlau gwerin. Gwynedd Davies, fy nghydweithwraig, a hyfforddwyd fel actores, fu'n recordio'r straeon. Ychwanegwyd effeithiau sain gan Nick Strong, o Brifysgol Cymru, Aberystwyth, er mwyn dod â'r cyfan yn fyw.

Ar Lwybr y Barcud sy'n arwain o gwmpas y llyn, gwelir cyfres o Arwyddion Cyfleu Neges sy'n cynnwys 13 o ffeithiau cyfareddol am y barcud coch, yn ogystal â lluniau cartwŵn bywiog.

Bu artistiaid deongliadol, dan gyfarwyddyd Creu-ad, hefyd yn brysur yn paratoi celf-waith ar gyfer y safle. Mae'r rhain yn cynnwys cerflun awyr-agored o'r barcud coch fydd yn symud yn y gwynt a sedd fosaig wedi'i gosod mewn sylffan o bwys. Y tu mewn i'r ganolfan ymwelwyr, byddwn yn arddangos murlun enfawr wedi'i wneud o droluniau pren ar lun coed a bywyd gwyllt ac ysgol uwchradd leol fydd yn gyfrifol am

YCHYDIG BARAU'N DAL I OROESI



Yn y 1930au, dim ond yng nghymoedd mwyaf anghysbell y Canolbarth yr oedd ychydig o barau'n dal i fyw, a hynny ym mlaenau dyffrynnoedd Tywi a Chothi.

'GLANHAWYR STRYDOEDD LLUNDAIN'




Nid erledigoeth oedd hanes y Barcud ym mhob cyfnod; yn Llundain yn 1465 roedd lladd barcutiaid neu gigfrain yn anghyfreithlon am eu bod yn cadw'r strydoedd yn lân. Roeddylt yn gyffredin mewn trefi a dinasoedd.

EITHRIAD YW YSGARU YM MYD Y BARCUD



Mae Barcutiaid fel arfer yn paru am oes. Yn y gaef mae'n bosib gweld cant neu fwy a adar mewn grŵp.

BARCUTIAID FEL ACROBATAID



Gyda'u hadenydd hir (5 troedfedd o adain i adain) a'u pwysau ysgafn (dim ond un kilo, 2-3 phwys), mae Barcutiaid yn ehedwyr ystwyth a gosgeiddig dros ben. Sylwch sut maen nhw'n disgyn i gymryd y tameidiau o gig adeg bwydo.

BARCUTIAID YN CHWARAE 'CHICKEN'



Mae rhuthro tuag at ei gilydd heb droi i ffwrdd tan y funud olaf yn un o hoff gemau caru'r Barcutiaid, er mor frawychus mae'n ymddangos.

Mae arwyddion ar Lwybr y Barcud yn cyfleu ffeithiau diddorol am y barcud coch; cartwnau gan gwmmi dylunio Argraff Signs on the Barcud (Kite) Trail tell fascinating facts about red kites, with cartoons by designers Argraff

lunio'r baneri ar gyfer "cynfas gwag" y ganolfan.

Erbyn hyn, rwyf ar fin mynd drwy'r broses gyfan unwaith eto gyda phrosiect cryn dipyn yn fwy yng Nghoed y Brenin. Os oes unrhyw un wedi rhannu profiadau tebyg, byddai'n dda cael clywed amdany'n nhw.

Mae Steven Richards-Price yn Ymgynghorydd Dehongli gyda Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Cyswllt: steven.richards-price@forestry.gsi.gov.uk.

Planning a dream at Nant yr Arian

Just over a year ago, Forestry Commission Wales had all the funding in place to create a dream visitor centre at Bwlch Nant yr Arian.

Steven Richards-Price describes how it's taking shape.



Mae Bwlch Nant yr Arian yn cynnig golygfeydd, teithiau cerdded a barcutiaid coch sy'n hynod boblogaidd
Bwlch Nant yr Arian is popular for its views, walks and red kites

Bwlch Nant yr Arian in Mid Wales has dramatic views and attractive walks, and is a popular place for watching red kites. We needed a new larger visitor centre for the increasing number of people coming to the site, including all the mountain bikers who had started using our purpose-built trails.

When we tendered to builders, we found that the cheapest bid was 50% higher than our budget. We learned two lessons from this: first, that everything had increased in price since we made the original costings, and second, that builders seem to dislike hillsides or anywhere that isn't beside a road.

We had to find massive savings which involved moving the intended site of the building and changing its design. I wonder if anyone has experience of using an approach like Design and Build, which might have avoided this?

Construction finally got underway and I had the interpretation budget to spend.

All the work needed to be tendered, so the first question was: how to divide it up?

I prepared an interpretive delivery plan which identified projects as graphic design, interpretive artwork or audio-visual, and prepared tenders accordingly. This of course meant specifying the media to be used. Some people feel this approach is too prescriptive, but it also means there's no danger of the work being designer-led.

Other items to deal with included webcams for the red kite nests and feeding areas, new site signage, brown tourism signage, and choosing orientation points. For the wider project support team there's also landscaping, car parking, services, playgrounds, paths and so on, which all need to be co-ordinated.

Meeting the deadlines set in the tenders has proved difficult, due to delays in the actual building process. If there's no floor, it is difficult to install a mural! Luckily the merry band of specialists working on the

project are patient and understanding, but obviously this isn't an ideal situation.

We have taken an approach I call "integral interpretation". There is no permanent exhibition, but visitors will encounter interpretation as they use the centre's facilities. The central theme is: "You will experience lots of 'green' features in our new visitor centre". Visitors will get this message in some unlikely places, including the loo (see box).

We've used lots of local wood in the building and will interpret this by writing brief messages on the timber itself. For example, we are using four different types of hardwoods in the floor and we will etch the tree species and county of origin into some of the floorboards. Paper serviettes will interpret the key tree species which provided timber for the building.

The children's corner will have otter- and badger-shaped tables and chunky log-like stools, complete with wooden toys to play

Interpret as you go

Our “integrated interpretation” approach means that people will engage with interpretation as they use visitor centre facilities.

In the toilets they’ll see interpretation on the back of the doors showing how rainwater collected from the roof is used for the toilet cisterns and the bikewash:

Loo Skywater at Nant yr Arian?

No – not a character from Star Wars – the loo you are about to flush uses rainwater collected from the roof

With a cartoon showing how the process works.


On the loo seat lids there’s interpretation about composting:

You do your bit – I’ll do the rest... and turn your waste into crumbly compost

When people are seeking shelter by the visitor centre they’ll find a panel about wood-fuel heating:

A visitor centre heated by chips? Not potato chips, rather woodchips from local woodlands

With cartoons showing the chip-making process from woodland to chipper, to lorry, to boiler.



Mae arwyddion ar Lwybr y Barcud yn cyfleu ffeithiau diddorol am y barcud coch; cartwnau gan gwmi dylunio Argraff **Signs on the Barcud (Kite) Trail tell fascinating facts about red kites, with cartoons by designers Argraff**

BIG AND BEAUTIFUL, BUT NOT STRONG



Although a very large bird, the kite must wait for the more powerful beak of a Raven or Buzzard to make inroads into a dead sheep.

IDEAL KITE COUNTRY



The small fields, wooded hedgerows, woodlands and open hilltops of Mid Wales make an ideal habitat for kites although the wet weather causes them some problems.

NOT JUST A SCAVENGER



As well as eating 'dead things', Red Kites also take a wide range of prey from earthworms through to voles and young rabbits.

KITES DECLARED 'VERMIN'



A Vermin Act in 16th century coupled with increasing numbers of gamekeepers in the 18thc led to Kites being extinct in England and Scotland by the 1880s.

WHY FEED THE KITES?



We learnt that a lack of food for nestlings meant many pairs failed to rear young. Feeding the kites helps to get them through the lean times of year.



with, all originating from local woodlands.

The building has huge floor-to-ceiling windows and opposite these is an equally huge wall space. We will use this as a “blank canvas” for temporary interpretation, which will provide continuing interest for local and repeat visitors. We will also have screens showing live footage of kites feeding and hopefully of their nests.

Outdoors, the main theme is “Bwlch Nant yr Arian is a unique place to visit due to its landscape, wildlife and cultural heritage”. Sub-themes focus on each of those three topics.

We’ll have a series of wind-up audio boxes telling folk-tales. My colleague Gwyneth Davies, who trained as an actress, recorded the stories. Sound Engineer Nick Strong, from the University of Wales Aberystwyth, added sound effects to bring them to life.

On the Barcud (Kite) Trail around the lake we have a series of Signal Signs

with 13 fascinating facts about red kites, illustrated by lively cartoon images.

Interpretive artists managed by Creu-ad have also been busy with artworks for the site. Outdoors, these include a red kite sculpture which will move in the wind and a mosaic seat at an important viewpoint. Inside the visitor centre, there will be a huge mural made from wooden cut-outs of trees and wildlife, and banners for the centre’s “blank canvas” wall made by a local secondary school.

I’m now about to go through the whole process again with a much larger project at Coed y Brenin. If anyone has shared any similar experiences it would be great to hear about them.

Steven Richards-Price is Interpretation Adviser for Forestry Commission Wales. Contact: steven.richards-price@forestry.gsi.gov.uk.

Ymgynghorwyr – canllaw i ddefnyddwyr

Beth bynnag yw eich barn am ymgynghorwyr, maen nhw bellach yn rhan anhepgor o sawl prosiect dehongli. **R. Elwyn Owen** sy'n cynnig arweiniad i arfer da wrth gyflogi ymgynghorwyr.

Mae pob un ohonom yn gyfarwydd â'r hen ystrydeb mai ymgynghorydd yw rhywun sy'n benthg eich oriawr er mwyn dweud wrthoch chi faint o'r gloch yw hi – ond rwy'n siŵr fod darllenwyr *Dehongli Cymru* yn llawer rhy gall i gredu hynny! Mewn oes o arbenigaeth a sefydliadau cyfyng bydd ymgynghorwyr yn cael eu cyflogi'n rheolaidd yn y dyddiau hyn i roi cyngor i fudiadau'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol fel ei gilydd.

Caiff y rhan fwyaf o gytundebau ymgynghori eu dyfarnu drwy dendro cystadleuol. Mae hyn yn galluogi'r cleient i ddewis y cyflenwr sy'n gallu cynnig yr ateb mwyaf creadigol a chost-effeithiol. Bydd y rheolau syml sy'n dilyn yn gwneud pethau'n haws i'r naill ochr a'r llall – ac yn sicrhau gwell canlyniadau.

Paratoi cyfarwyddyd clir

Mae'r amser sy'n cael ei dreulio wrth y dasg o ddatblygu'r briff cychwynnol yn dwyn ffrwyth ar ei ganfed bob tro. Dylai cyfarwyddyd da fynd i'r afael â'r cwestiynau allweddol canlynol:

PAM fod y gwaith yn cael ei gomisiynu? Beth yw amcanion yr aseiniad? Beth ydych chi, y cleient, yn dymuno'i gael o hyn oll? Sut y bydd y canlyniadau yn cael eu defnyddio – a chan bwy?

BETH ydych chi'n ei ddisgwyl gan yr ymgynghorydd a **PHRYD** mae angen gwneud hyn? Sut y dylai'r ymgynghorydd gyflwyno ei allbwn? Beth fydd graddfa amser y cyflwyno? A fydd disgwyl i'r ymgynghorydd gyflwyno adroddiadau interim neu ddrafft ac os felly, ar ba adeg(au) yn hanes y prosiect?

PWY fydd yn gyfrifol am reoli'r gwaith ar ran y cleient?

SUT fydd y gwaith yn cael ei gyflawni? A ellir ymgymryd â'r gwaith gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael, neu a fydd angen ymchwil newydd? Os oes angen ymchwilio o'r newydd, ydych chi'n ffafrio un dull arbennig, neu a oes disgwyl i'r ymgynghorydd awgrymu dull addas? Ydych chi'n disgwyl i'r ymgynghorydd gysylltu â phobl a sefydliadau eraill – ac os felly, ar ba adeg(au) yn hanes y prosiect? Pa gymorth, os o gwbl, fyddwch chi, y cleient, yn ei ddarparu yn ystod cyfnod y cytundeb?

Mae briff sydd wedi'i lunio'n ofalus yn rhoi'r wybodaeth gyflawn i'r ymgynghorydd o'r cychwyn cyntaf. Os na fyddwch yn esbonio'r broblem yn iawn, yna mae'n gwbl afresymol disgwyl iddyn nhw feddwl am atebion effeithiol.

Cadwch y rhestr dendro yn fyr

Mae'r rhai sy'n gleientiaid am y tro cyntaf yn credu fod rhestr dendro hirach yn siŵr o sicrhau gwell cynnyrch. Y gwir amdani yw y bydd ymgynghorwyr yn treulio mwy o amser wrth eu cynigion pan fyddan nhw'n dod wyneb yn wyneb â thri chystadleuydd yn hytrach na deg. Mae'r cyntaf yn cynnig gwell manteision, tra bod yr olaf yn debycach i raffl.

Fel arfer, mae gwahodd cynigion oddi wrth dri neu bedwar ymgynghorydd gwahanol yn ddigon. Wrth lunio eich rhestr, mae'n syniad da mynd ati i geisio barn pobl eraill. Gall pob un o'r asiantaethau sy'n cael eu cynrychioli ar Grŵp Llywio Dehongli Cymru gynnig awgrymiadau cadarn a diduedd.

Rhowch amcangyfrif o'r cyllid sydd ar gael

Bydd cleientiaid yn aml yn gyndyn i roi unrhyw arwydd o gwbl o faint o adnoddau

ariannol sydd ar gael ar gyfer cytundeb, oherwydd eu bod o'r farn y bydd hyn yn rhwystr i'r cystadlu. Mewn gwirionedd, bydd rhoi canllawiau cyllidebol yn gymorth i sicrhau gwell cynnyrch yn y pen draw.

Os yw'r gyllideb yn gyfyngedig iawn, yna dylai'r ymgynghorwyr gael gwybod hyn, a gorau po gyntaf yn hynny o beth, fel na fyddan nhw'n gwastraffu amser yn awgrymu dulliau gweithredu sy'n ddigon dilys ond sydd y tu hwnt i boced y cwsmer. Y ffordd orau o asesu a chymharu cynigion yw drwy ystyried eu gwerth cymharol am yr arian, yn hytrach na'u cost.

Rhowch amser i'r ymgynghorwyr ymateb

Da chi, rhowch amser rhesymol i'r ymgynghorwyr fynd ati i baratoi a chyflwyno'u cynigion. Mae gofyn iddyn nhw ymateb ymhen ychydig ddiwrnodau yn anystyriol ac ni fydd hyn yn dwyn ffrwyth ar lun cynigion da. Mae tair wythnos lawn, o gyfnod derbyn y briff i ddyddiad olaf cyflwyno'r cynigion, yn ddigon rhesymol. Os oes cyfweiliadau i'w cynnal, yna dylid nodi yn y cyfarwyddiadau pryd y mae'r rhain i'w cynnal er mwyn i'r ymgeiswyr gadw cofnod ohonynt yn eu dyddiaduron.

Waeth pa mor fanwl yw eich cyfarwyddiadau, bydd darpar ymgynghorwyr yn debygol o ofyn am eglurhad ar rai pwyntiau manwl. Dylech gynnwys enw person cyswllt sy'n gyfarwydd â'r prosiect ac a fydd ar gael i ateb unrhyw ymholiadau.

Gwerthuswch y cynigion yn ofalus

Os byddwch yn penderfynu cynnal cyfweiliadau, dywedwch wrth yr ymgeiswyr ymlaen llaw beth fydd natur y cyfweiliadau hyn a faint o amser fydd ganddyn nhw i gyflwyno'u hachos. Esboniwch eich bod yn disgwyl i'r unigolion allweddol fydd yn ymgymryd â'r gwaith fod yn bresennol yn y cyfweiliad, a gofynnwch un cwestiwn o leiaf i bob un ohonyn nhw.

Cyn dod i benderfyniad, gofynnwch y cwestiynau canlynol i chi eich hun:

- pa ymgynghoriaeth sy'n ymddangos fel pe bai wedi dirnad y briff orau?
- dull pwy o weithredu sy'n ymddangos

Consultants – a user's guide

Whatever you think about consultants, they're now an indispensable part of many interpretation projects.

R. Elwyn Owen offers a guide to good practice when hiring consultants.

We're all familiar with the old cliché that a consultant is someone who borrows your watch in order to tell you what time it is – but I'm sure readers of *Dehongli Cymru* are far too sensible to believe this! In an age of specialisation and lean organisations, consultants are nowadays engaged as a matter of course to advise public, private and voluntary sector organisations.

Most consultancy contracts are awarded by competitive tender. This enables the client to choose the supplier who can offer the most creative and cost-effective solution. The following simple rules will make life easier for both parties – and produce better results.

Prepare a clear brief

Time spent developing the initial brief is always well rewarded. A good brief will address these key questions:

WHY is the work being commissioned? What are the aims of the assignment? What do you, the client, want to achieve from it? How will the results be used – and by whom?

WHAT is expected of the consultant and **WHEN** does it need to be done? What form should the consultant's output take?

Within what timescale? Will the consultant be required to submit interim or draft reports and if so at what stage(s) of the project?

WHO will be responsible for managing the work on behalf of the client?

HOW will the work be done? Can it be undertaken using existing information, or will it involve new research? If new research is needed, do you have a preferred approach, or is the consultant expected to suggest a suitable method? Do you expect the consultant to liaise with or consult other people and organisations – and if so at what stage(s) of the project? What assistance if any will you, the client, provide during the course of the contract?

A carefully constructed brief puts consultants fully in the picture from the outset. If you do not explain the problem properly, then it is unreasonable to expect them to come up with effective solutions.

Keep the tender list short

First-time clients often believe that a long tender list guarantees a better product. In reality, consultants will spend more time on their proposals when faced with three competitors rather than ten. The former offers reasonable odds, while the latter is more like a raffle.

It's usually sufficient to invite bids from three or four different consultants. When compiling your list, it's a good idea to seek advice from others. All the agencies represented on the Dehongli Cymru Steering Group can make sound and impartial suggestions.

Give an indication of the budget

Clients are often reluctant to give any indication at all of the budget resources available

for a contract, believing that this will hinder competition. In fact, giving budget guidelines will help to produce a better product.

If budget resources are severely constrained, then consultants need to know about this sooner rather than later, so that they don't waste time suggesting quite valid approaches that the client can't afford. The best way of assessing and comparing bids is on the basis of their relative value for money, rather than their cost.

Give consultants time to respond

Do give consultants a reasonable amount of time in which to prepare and submit their bids. Asking them to respond within a few days is inconsiderate and will not yield good proposals. Three full weeks, from receipt of the brief to the closing date for submission, is reasonable. If there are to be interviews, then the brief should specify when they will take place so they can be pencilled in candidates' diaries.


However explicit your brief, prospective consultants will probably wish to seek clarification on points of detail. You should include the name of a contact person who is familiar with the project and will be available to answer queries.

Evaluate tenders carefully

If you do decide to hold interviews, tell candidates in advance what form these will take and how much time they will have to present their case. Make it clear that you expect the key people who will actually be doing the work to appear at the interview, and direct at least one question to each of them.

Before making your decision, ask yourself the following questions:

- which consultancy seems to have the best grasp of the brief?
- whose approach appears to be the most creative, thorough and practical?
- whose team seems best suited to the job in terms of their skills, experience and reputation?
- who can you work with best?



y mwyaf creadigol, trylwyr ac ymarferol?

- tîm pwy sy'n ymddangos yn fwyaf addas i'r gwaith o safbwynt eu sgiliau, profiad a'u henw da?
- gyda phwy y gallwch chi weithio orau?

Bydd y pris yn bwysig bob amser, ond ddylech chi fyth seilio eich penderfyniad ar hwn yn unig. Os bydd un cynnig yn llawer iawn is na'r gweddill, mae'n bosibl fod yna fagl o ryw fath. Gall yr ymgynghorydd fod yn cynnig llai o ddiwrnodau gweithredol ac yn dirprwyo cryn dipyn o'r gwaith i staff iau, neu mae'n bosibl ei fod yn syml wedi camfarnu hyd a lled y dasg.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn hysbysu'r ymgeiswyr aflwyddiannus cyn gynted â phosibl, fel mater o gwrteisi ac er mwyn eu galluogi i ganolbwyntio ar eu tasgau eraill. Byddan nhw'n eich parchu os ewch ati i gynnig adborth adeiladol ar eu cynnig.

Peidiwch â chyflogi ac yna anghofio

Pan fyddwch wedi dewis ymgynghorydd, dylech:

- anfon llythyr cyflogi swyddogol fydd yn cadarnhau'r prif ddarpariaethau a ddisgwyllir, dyddiadau cau ar gyfer derbyn adroddiadau, ffioedd sy'n daladwy a threfniadau anfonebu
- cadwch gyswllt rheolaidd â'r ymgynghorydd, er mwyn sicrhau fod y gwaith yn mynd yn ei flaen yn unol â'r amserlen ac i lyfnhau unrhyw anawsterau sy'n rhwym o godi.

Mae R. Elwyn Owen yn ymgynghorydd annibynnol sy'n arbenigo mewn twristiaeth gynaliadwy ac astudiaethau cefn gwlad. Mae'n Athro Ymweliadol yn Ysgol Lletygarwch, Rheoli Twristiaeth a Hamdden Cymru, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd. Cyswllt: elwyn_owen@btinternet.com


Camp y Chwe Gwlad i ddechrau, yna Dehongli Prydain!

Ayw eich prosiect dehongli diweddaraf yn ysbrydoli ac yn ymwneud â'r cyhoedd? Ydych chi wedi defnyddio'r celfyddydau i dynnu sylw ac i gyffroi eich cynulleidfia? Os felly, beth am i chi gynnig am un o Wobrau Dehongli Prydain ac Iwerddon 2005?

Gweinyddir y cynllun Gwobrau, sydd bellach yn 21ain oed, gan Y Gymdeithas er Dehongli Treftadaeth (Association for Heritage Interpretation - AHI). Mae'r gystadleuaeth yn agored i brosiectau o unrhyw fath, o ddigwyddiadau cymunedol graddfa fechan i atyniadau masnachol mawr i ymwelwyr. Prosiectau sy'n defnyddio'r celfyddydau creadigol neu berfformiadol fel cyfrwng i archwilio treftadaeth yw testun yr Adran Arbennig yn 2005.

Prin iawn fu'r ceisiadau o Gymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ond onid yw Cymru bellach ar y brig ar ôl cyfres o lwyddiannau? Rydyn ni newydd ennill y Gamp Lawn, pam felly na fedrwn ni gipio Gwobrau Dehongli Prydain ac Iwerddon?

Ceir y manylion a'r ffurflenni cais ar wefan AHI (www.heritage-interpretation.org.uk). Mae'r cynllun eleni yn berthnasol i brosiectau sydd wedi bod ar y gweill ers 1 Ionawr 2003. Dydd Mercher 4 Mai 2005 yw'r dyddiad olaf i gyflwyno ceisiadau.



Price will always be important, but it should never be the single deciding factor. If one bid is substantially lower than the rest, there may be a catch.

The consultant may be offering fewer executive days and delegating a lot of the work to junior staff, or they may simply have misjudged the size of the job.

Make a point of letting unsuccessful candidates know as soon as possible, as a matter of courtesy and to enable them to concentrate on their other work. They will respect you if you offer constructive feedback about their bid.

Don't just hire and forget

When you've chosen a consultant, you need to:

- issue a formal letter of engagement confirming key deliverables, reporting deadlines, fees payable and billing arrangements
- maintain regular liaison with the consultant, to ensure that the work is progressing to schedule and to iron out the minor problems that will invariably arise.

R. Elwyn Owen is an independent consultant specialising in sustainable tourism and countryside studies. He is Visiting Professor at the Welsh School of Hospitality, Tourism and Leisure Management, University of Wales Institute, Cardiff. Contact: elwyn_owen@btinternet.com

First the Six Nations, then Interpret Britain!

Does your latest interpretation project inspire and involve the public? Have you used the arts to engage and excite your audience? If so, why not enter for the 2005 Interpret Britain & Ireland Awards?

The Awards scheme, now in its 21st year, is run by the Association for Heritage Interpretation (AHI). It's open to projects of any kind, from small-scale community events to major commercial visitor attractions. The 2005 Special Category is for projects that use the creative or performing arts as a way of exploring heritage.

There have been very few entries from Wales in recent years. But isn't Wales now on a winning streak? We've just won the Grand Slam, so why not the Interpret Britain & Ireland Awards?

Details and entry forms are available on the AHI website (www.heritage-interpretation.org.uk). This year's scheme is for projects that have started up since 1 January 2003. The closing date for entries is Wednesday 4 May 2005.